

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygio) (Cyrff Llywodraeth Leol yng Nghymru) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r Gorchymyn uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun deg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygio) (Cyrff Llywodraeth Leol yng Nghymru) 2021.

Julie James AS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

23 Chwefror 2021

1. Disgrifiad

Mae Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygio) (Cyrff Llywodraeth Leol yng Nghymru) 2021 yn diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i ddarparu bod cyd-bwyllgorau corfforaethol a sefydlwyd gan reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 lle y bo'n berthnasol.

Daw'r darpariaethau hynny i rym ar y 1 Ebrill 2021.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Ni nodwyd unrhyw faterion penodol.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae'r pwerau sy'n galluogi i'r Gorchymyn hwn gael eu gwneud wedi'u cynnwys yn adran 12(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae adran 12(2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr o gyrff llywodraeth leol yng Nghymru yn Adran 12(1) y mae Rhan 2 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddi.

Bydd y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn y Senedd yn rhinwedd paragraff 35 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, bydd y Gorchymyn yn cael eu gwneud gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ac fe ddônt i rym ar 1 Ebrill 2021.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygio) (Cyrff Llywodraeth Leol yng Nghymru) 2021 ("gorchymyn diwygio") yn diwygio'r rhestr o gyrff llywodraeth leol yng Nghymru yn adran 12(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn gwneud darpariaeth ynghylch archwilio cyfrifon cyrff cyhoeddus yng Nghymru a materion cysylltiedig. Mae Rhan 2 yn ymwneud â chyrrff llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae'r gorchymyn diwygio yn darparu bod Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a sefydlwyd o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ddarostyngedig i ddarpariaethau rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r gorchymyn diwygio hefyd yn gwneud darpariaeth fach, ganlyniadol ac atodol.

Mae'r gorchymyn diwygio yn ffurfio pecyn o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth a fydd yn sail i bob Cyd-bwyllgor Corfforaethol ac yn rhoi'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol ar waith ar gyfer gweinyddu a llywodraethu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn effeithiol.

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn gyrrff corfforaethol, a sefydlwyd drwy reoliadau, ac maent yn cynnwys y prif gynghorau hynny yng Nghymru a bennir yn y rheoliadau sefydlu. Mewn rhai amgylchiadau, mae awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru hefyd wedi'u cynnwys mewn Cyd-bwyllgor Corfforaethol. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd hyn hefyd yn cael ei nodi yn rheoliadau sefydlu'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol perthnasol.

Y bwriad cyffredinol wrth sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yw y bydd Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn cael ei drin fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol' neu fel aelod ohono ac yn ddarostyngedig i'r un pwerau a dyletswyddau ag awdurdodau lleol, neu i bwerau a dyletswyddau tebyg, yn y ffordd y maent yn gweithredu ac yn cael eu llywodraethu.

Mae'r gorchymyn diwygio yn ceisio sicrhau bod rheolaeth ariannol dda a phriodol ar waith ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a bod y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn dod o fewn cylch gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol baratoi cyfrifon a'i gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru eu harchwilio.

Mae'r diwygiadau yn y rheoliadau hyn:

- a. Yn diwygio Adran 12(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 er mwyn cynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn y rhestr o gyrrff llywodraeth leol yng Nghymru y mae rhan 2 o'r Ddeddf honno'n gymwys iddynt.
- b. Yn mewnosod darpariaeth yn Adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i atal Cyd-bwyllgorau Corfforaethol rhag dirprwyo'r swyddogaeth o ystyried adroddiad ac argymhellion gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o fewn yr adran honno i is-bwyllgor neu i berson arall.
- c. Yn mewnosod diffiniad o Gyd-bwyllgor Corfforaethol yn adran 59 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

5. Ymgynghori

Er na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y gorchymyn ei hun, ystyriwyd cymhwyso cyfundrefn gyfrifyddu, archwilio a rheoli ariannol briodol fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforaethol drafft a gynhaliwyd rhwng 12 Hydref 2020 a 4 Ionawr 2021. Yn unol â'r dull o drin Cyd-bwyllgorau Corfforaethol fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol' cytunodd ymatebwyr y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforaethol fod yn ddarostyngedig i'r un ddeddfwriaeth a fframwaith gweinyddu ariannol a llywodraethu â phrif gynghorau yng Nghymru.

Ymgynghorodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol hefyd ag Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y bwriad i ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol at y rhestr o gyrrff llywodraeth leol o dan Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 at ddibenion Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a dod â Chyd-bwyllgorau Corfforaethol o fewn cylch gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yn ei ymateb, cytunodd yr Archwilydd Cyffredinol â'r dull arfaethedig.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol ar wahân mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. Fodd bynnag, roedd yr asesiad effaith rheoleiddiol i gyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru 2021 yn asesu'r costau a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol drwy reoliadau. Wrth asesu'r costau a'r manteision posibl, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried y bwriad polisi trosfwaol y dylid trin Cyd-bwyllgorau Corfforaethol fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol' gan gynnwys cymhwyso cyfundrefn gyfrifyddu, archwilio a rheoli ariannol briodol a dod â Chyd-bwyllgorau Corfforaethol o fewn cylch gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru. Felly, ystyriwyd y costau sy'n gysylltiedig â chymhwyso Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i Gyd-bwyllgorau Corfforaethol fel rhan o'r asesiad effaith rheoleiddiol ar reoliadau'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol eu hunain.

Mae copi o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig y De-ddwyrain (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021 ar gael fel rhan o'r dogfennau perthnasol sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau hynny:

<https://senedd.cymru/media/asppuikv/sub-ld14134-em-w.pdf>.